| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **11 Medi 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig/Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol** |
| **Teitl:** | **Adolygu Cynlluniau Tref ac Ardal** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Yn Chwefror a Mawrth 2014, cymeradwyodd y Cabinet y swp olaf o Gynlluniau Tref ac Ardal estynedig. Codwyd pryderon ynghylch darparu ac ariannu'r Cynlluniau, a chytunodd y Cabinet y dylid cynnal adolygiad. Cafodd yr adolygiad ei gwblhau ym mis Mehefin 2014. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd canfyddiadau'r adolygiad ac yn nodi'r camau sy'n cael eu cynnig o ganlyniad.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar ganfyddiadau'r Adolygiad Cynlluniau Tref ac Ardal, a nodi'r camau sy'n cael eu cymryd o ganlyniad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gwahoddir y Pwyllgor Archwilio Cymunedau i ystyried canfyddiadau'r adolygiad a rhoi sylwadau ar y camau gweithredu arfaethedig o ganlyniad.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

Cynigiwyd Cynlluniau Tref yn wreiddiol gan y Cyngor fel modd o nodi'r blaenoriaethau lleol a nodi'r camau gweithredu ar gyfer eu datblygu. Yn ystod 2013/14, ehangwyd ar y Cynlluniau Tref i gwmpasu cymunedau gwledig cyfagos i roi sylw llawn ar draws y sir. Cymeradwywyd y cynlluniau a ehangwyd gan y Cabinet rhwng Tachwedd 2013 a Mawrth 2014.

Yn ystod y broses o ehangu ar y Cynlluniau, mynegwyd pryderon ynghylch eglurder yr amcanion polisi a chysondeb y broses ar gyfer datblygu'r Cynlluniau. Roedd yr Aelodau hefyd yn awyddus, mewn cyfnodau o gyfyngiadau cyllidebol cynyddol, bod blaenoriaethau a gynhwyswyd yn y Cynlluniau yn gallu dangos prosiectau hyfyw, sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n werth chweil, er budd preswylwyr lleol.

Cafodd adolygiad o'r broses Cynlluniau Tref ac Ardal ei gomisiynu gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan y Cabinet ac

Aelodau eraill. Cynhaliwyd yr adolygiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Rheolwr Rhaglen, Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Adroddwyd ynghylch yr adolygiad ym mis Mehefin 2014.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad, er bod y cysyniad o ddefnyddio Cynlluniau Tref ac Ardal i ddod â'r Cyngor yn 'nes at y gymuned' yn gadarn ac yn caniatáu i'r Cyngor gael dealltwriaeth o flaenoriaethau ar lefel leol, roedd diffyg eglurder ynghylch bwriadau polisi cyffredinol y Cynlluniau Tref ac Ardal a diffyg cysondeb o ran sut y cawsant eu datblygu a'u cyflawni.

Nododd yr adolygiad hefyd risg o ddryswch a dyblygu rhwng y Cynlluniau Tref ac Ardal a chynlluniau a strategaethau eraill y Cyngor.

Yn olaf, daeth yr Adolygiad i'r casgliad bod Cynlluniau Tref ac Ardal fel y'i hysgrifennwyd ar y pryd ddim yn ddigon strategol, ddim yn darparu gwybodaeth glir am y buddion a ragwelir ac nid yn glir sut y bydd yr effaith yn cael ei fesur. Fel y cyfryw, daeth yr adolygiad i'r casgliad y byddai'n anodd sefydlu gwerth am arian.

Mae copi o Ganfyddiadau'r Adolygiad wedi'i atodi yn Atodiad 1.

Nododd yr Adolygiad nifer o gamau gweithredu yr awgrymodd a fyddai'n darparu ffordd ymlaen i wella trefniadau yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn 5 maes allweddol i weithredu arnynt, gan ganolbwyntio ar:

a) Ddatblygu datganiad polisi clir i ategu'r Cynlluniau Tref ac Ardal
b) Datblygu fframwaith gweithredol sy'n nodi canllawiau clir a chyson ar greu, gweithredu a llywodraethu Cynlluniau Tref ac Ardal
c) Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer yr holl fudd-ddeiliaid allweddol
d) Ailasesu Cynlluniau Tref ac Ardal presennol i ddangos hyfywedd, effaith, gwerth am arian a budd amlwg i breswylwyr
e) Gweithredu dulliau rheoli perfformiad a monitro cynnydd clir, sy'n cyd-fynd â dull rheoli perfformiad cyffredinol y Cyngor.

Mae copi o'r Cynllun Gweithredu wedi'i atodi yn Atodiad 2.

Mae cynnydd eisoes wedi'i wneud gyda'r cam cyntaf. Mae Datganiad Polisi drafft ynghlwm wrth Atodiad 3 er gwybodaeth a sylwadau gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r Fframwaith Gweithredol ac mae hyn i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2014. Gellir darparu rhagor o fanylion am gynnydd yn y cyfarfod.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Cynlluniau Tref ac Ardal yn galluogi'r amcan corfforaethol o ddod â'r Cyngor yn nes at y gymuned. Mae hefyd yn ddull pwysig o ddisgrifio sut mae blaenoriaethau corfforaethol cyffredinol y Cyngor yn derbyn sylw ar lefel leol gan gyfeirio at anghenion a dyheadau cymunedau lleol. Mae Trefi a Chymunedau bywiog wedi cael eu nodi fel conglfaen hanfodol i adeiladu economi lleol iach ac mae Cynlluniau Tref

ac Ardal fel ffordd i nodi camau gweithredu lleol i sicrhau hyn. Mae Cynlluniau Tref ac Ardal hefyd yn cynnig cyfle i sefydlu egwyddorion y Cynllun Lles sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Sir Ddinbych i gefnogi a hwyluso unigolion a chymunedau i fod yn annibynnol ac yn wydn.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Rhoddwyd cyllideb o'r neilltu i weithredu'r camau sy'n codi o'r Cynlluniau Tref ac Ardal. Mae pryderon wedi'u codi dros y graddau y gellir dangos gweithredoedd i fod yn hyfyw, yn werth am arian, neu o ddigon o fudd i breswylwyr lleol. Gyda gostyngiad mewn cyllidebau, bydd angen i'r Cyngor benderfynu a ddylid parhau â'r un lefel o ariannu, neu lefel ostyngol, yn y dyfodol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad.**

Ni chredir fod angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn ystod y cam hwn. Argymhellir ymgorffori cam asesu effaith ar gydraddoldeb ym mhob Cynllun unigol Tref ac Ardal.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Datblygwyd Cynlluniau Tref ac Ardal gan Aelod etholedig lleol drwy Grwpiau Ardal Aelodau, yn seiliedig ar ymgynghoriadau â chymunedau lleol. Roedd Adolygiad o'r Cynllun Tref ac Ardal yn ymgysylltu ag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid y Cyngor, gan gynnwys sampl o Hyrwyddwyr Cynllun presennol. Mae'r Cynllun Gweithredu a'r Datganiad Polisi drafft yn cael eu trafod gyda Hyrwyddwyr Cynllun ar 9 Medi. Rhoddir adborth yn y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 11 Medi.

**9. Datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol

**10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw at risgiau sy'n ymwneud â chodi disgwyliadau afresymol lleol a methiant i gyflawni. Mae trafodaethau yn y Cabinet a mannau eraill wedi tynnu sylw at gamau gwerth isel am arian, prosesau anghyson a diffyg effaith. Mae'r adolygiad wedi archwilio'r risgiau hyn a'u hargymhellion, ac mae'r cynllun gweithredu yn sgil hynny'n bwriadu mynd i'r afael â nhw. Byddai sylwadau'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar y rhain yn cael eu croesawu.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Erthygl 6.3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor.

**Swyddogion Cyswllt:**
Cyfarwyddwr Corfforaethol, Uchelgais Economaidd a Chymunedol
Rhif Ffôn: 01824 706061